

GWAHODDIAD I DENDRO:

Adolygiad o effaith prosiectau mewn addysg bellach a gyllidwyd gan Chwaraeon Cymru 2014-2017

Awst 2017

Colegau Cymru
Uned 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

Colleges Wales
Unit 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

1.0 Gwybodaeth am y cwmni

Enw'r cwmni	Colleges Wales / Colegau Cymru Limited (Rhiant-gwmni fforwm Services Limited)
Rhif y cwmni	2832103
Rhif yr elusen	1060182
Is-gwmni	fforwm Services Limited
Rhif yr is-gwmni	3066192
Rhif TAW	655 9801 02
Swyddfa gofrestrdig a chyfeiriad gweithredu	Uned 7, Cae Gwyrdd Greenmeadow Springs Tongwynlais Caerdydd CF15 7AB
Tîm y prosiect	Rachel Bowen Robert Baynham
Ffôn	029 20 522500
E-bost i gysylltu	robert.baynham@colegaucymru.ac.uk Rachel.Bowen@colegaucymru.ac.uk

2.0 Cefndir

- 2.1 ColegauCymru yw'r elusen genedlaethol sy'n cynrychioli'r 13 coleg a sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Mae'n elusen addysgol ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Mae ColegauCymru yn rhoi amrywiaeth o wasanaethau i'w aelodau gan gynnwys rhwydweithio, cynadleddau, ymchwil, gwaith ymgynghorol a rhannu arferion da. Mae'n gweithio'n agos hefyd gydag ystod eang o bartneriaid yn y maes addysg a hyfforddiant ôl-16. Drwy ColegauCymru, mae colegau'n cael eu cynrychioli ar amryw o bwyllgorau, gweithgorau a grwpiau eraill sy'n llywio ac yn dylanwadu ar bolisi hyfforddiant ac addysg ôl-16 a dysgu gydol oes.
- 2.2 Mae colegau addysg bellach Cymru yn gyfrifol am 80% o'r cymwysterau ôl-16 ac yn rhoi profiad dysgu i bron i 200,000 o bobl yng Nghymru. Mae traean yr holl ddysgwyr 16-18 oed yng Nghymru yn dewis astudio mewn colegau.
- 2.3 Mae ColegauCymru wedi ymrwymo i roi gwerth am arian fel rhan ganolog o'r modd y mae'n cynnal ei fusnes ac yn creu ei strategaethau. Er bod ganddo gyfrifoldeb penodol dros sicrhau gwerth am arian am y cyllid y mae'n ei gael gan ei aelodau, mae'r egwyddor hon yn berthnasol hefyd i'r arian y mae'n ei gael o bob ffynhonnell arall.
- 2.4 Mae ColegauCymru'n cyflogi Cydlynnydd Chwaraeon, ac mae dwy elfen i'r swydd hon, sef cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith dysgwyr addysg bellach, a rheoli chwaraeon yn y maes addysg bellach drwy gorff llywodraethu Chwaraeon Colegau Cymru.
- 2.5 Blwyddyn bontio yw 17/18 o ran cyllid Chwaraeon Cymru i gynyddu cyfranogiad. Y nod yw datblygu strategaeth dair blynedd newydd ar gyfer chwaraeon mewn addysg bellach ar y cyd â ColegauCymru a Chwaraeon Colegau Cymru.

3.0 Y rhesymeg

Mae Chwaraeon Cymru'n rhoi cyllid prosiect i golegau addysg bellach, a hwnnw'n cael ei reoli gan ColegauCymru o fewn y sector addysg bellach. Amcanion gwreiddiol y prosiect oedd:

- Cynyddu cyfranogiad – er mwyn i 40% o fyfyrwyr fod wedi gwirioni ar chwaraeon
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb – lleihau 10% ar y bwlch rhwng y rhywiau
- Datblygu gwirfoddoli – er mwyn i 10% o fyfyrwyr addysg bellach wirfoddoli mewn chwaraeon

3.1 Ers 2014 mae'r 12 coleg addysg bellach yng Nghymru sydd â dysgwyr amser llawn wedi cymryd rhan yn y prosiect. Maent i gyd wedi gweithio tuag at

amcanion y prosiect, a restrir uchod, gan ymrwymo ar yr un pryd i ddatblygu chwaraeon, gweithgarwch corfforol a llesiant dysgwyr ar lefel ehangach. Dyma rai enghreifftiau o ddatblygiadau a oedd yn benodol gysylltiedig â'r prosiect:

- Arolwg Chwaraeon Addysg Bellach 2015
- 3000+ o ddysgwyr bob blwyddyn yn rhan o'r prosiect
- 120 + o arweinwyr ifanc yn gweithio mewn timau rheoli myfyrwyr
- Cydweithio newydd mewn partneriaeth ar gynlluniau oedd wedi'u harwain gan gyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol a Chwaraeon Cymru, gan gynnwys:
Llysgenhadon Ifanc Cymru, Street Games, US Girls, y Bartneriaeth Awyr Agored, Arweinwyr Chwaraeon y DU, Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chyrrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol.
- Gwerth ychwanegol yn cefnogi gwaith datblygu Chwaraeon Cymru, gan gynnwys:
Y Gymraeg, Prosiect Chwaraeon Cymunedol, Cyhoedduswydd a Chyfathrebu, Hamdden Awyr Agored, monitro gweithgarwch ychwanegol o dan y prosiect, rhwydweithio a digwyddiadau.
- Cynlluniau datblygu newydd yn gysylltiedig â chyllid y prosiect:
Gwefan Chwaraeon Colegau Cymru
Cynhadledd Chwaraeon Colegau Cymru
Her Eryri Chwaraeon Colegau Cymru
Monitro ar-lein UPSHOT
Grŵp Strategaeth Chwaraeon Colegau Cymru
Prosiect Erasmus ac YSDA
Prosiect 'Activators' Pêl-droed Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru
US Girls
Gwaith datblygu strategol ar brosiectau addysg bellach newydd

3.2 Mae colegau addysg bellach hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu chwaraeon, gweithgarwch corfforol a llesiant ymhlith myfyrwyr addysg bellach ar raddfa ehangach, a hynny'n cael ei gyllido'n bennaf gan y colegau eu hunain.

- 3000+ o ddysgwyr amser llawn yn astudio cyrsiau sy'n gysylltiedig â chwaraeon
- 500+ o fyfyrwyr yn astudio cyrsiau chwaraeon addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach
- Buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd mewn cyfleusterau chwaraeon mewn sefydliadau addysg bellach, a buddsoddiad ar y cyd ar lefel leol yng nghyfleusterau clybiau a chyfleusterau cymunedol sy'n bodoli'n barod
- 1500+ o fyfyrwyr yn cystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon rheolaidd ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

3.3 Mae colegau addysg bellach yn ymwneud â chymunedau lleol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu chwaraeon drwy'r partneriaethau a'r perthnasau canlynol:

- Cefnogi timau datblygu chwaraeon awdurdodau lleol sy'n gweithio gydag ysgolion ac mewn digwyddiadau
- Cefnogi ymddiriedolaethau cymunedol sydd â chysylltiadau â thimau chwaraeon proffesiynol a sefydliadau elusenol
- Darparu cyfleusterau ar gyfer digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ynghyd â swyddfeydd i gyrrff llywodraethu cenedlaethol a chanolfannau cymunedol.

3.4 Mae'r sector addysg bellach yn allweddol wrth helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i ehangu cyfranogiad, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac annog adfywio economaidd. Mae'r sector wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant o ansawdd da a'r rheini'n ymateb i anghenion unigolion, cymunedau a busnesau.

3.5 Ar ran y sector addysg bellach a Chwaraeon Cymru, mae ColegauCymru wedi gwneud gwaith ymgysylltu ar lefel strategol gyda'r sefydliadau hyn:

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r tîm polisi chwaraeon
- EACEA – y Comisiwn Ewropeaidd – Chwaraeon
- Chwaraeon Anabledd Cymru
- Estyn
- Y Sector Addysg Uwch / Prifysgolion
- Grŵp Awyr Agored WATO
- Swyddfa Archwilio Cymru – Newid Ymddygiad yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Amryw o gyrrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol – gan gynnwys Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Pêl-rwyd Cymru...

4.0 Y gwaith ymchwil

4.1 Mae ColegauCymru yn gwahodd cynigion gan sefydliadau i gynnal ymchwil er mwyn canfod effaith cyllid grant Chwaraeon Cymru i golegau addysg bellach rhwng 2014 a 2017. Dylai'r ymchwil greu argymhellion er mwyn llywio'r strategaeth yn y dyfodol, gan roi sylw i'r themâu hyn:

- Y prif bethau a ddysgwyd drwy fuddsoddi yn y sector addysg bellach, o ran yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, yr hyn na weithiodd cystal, a pham
- Rhoi adroddiad ar ystod o safbwyntiau/gwybodaeth/data ansoddol a meintiol yn sail i gasgliadau'r adolygiad
- Tynnu sylw at yr effeithiau uniongyrchol a ddeilliodd o'r prosiectau

- Yr effaith strategol anuniongyrchol (e.e. strategaethau llesiant, dyraniadau staffio ac yn y blaen) a'r gwerth ychwanegol i'r sector yn sgil y bartneriaeth rhwng Chwaraeon Cymru a ColegauCymru
- Edrych ar effaith ehangach bosibl y bartneriaeth gyda'r sector addysg bellach o ran targed chwaraeon cymunedol Chwaraeon Cymru a'r model llwybr chwaraeon
- Llunio argymhellion allweddol ac amlygu themâu strategol i'w hystyried wrth greu strategaeth ar gyfer y cyfnod ar ôl 2018

4.2 Ceir llawer o dystiolaeth ac ymchwili i gyd-fynd mewn meysydd cysylltiedig, a dylai'r rhain fod yn sail i adolygiad llenyddiaeth:

- Adolygiad gweinidogol Llywodraeth Cymru o Chwaraeon Cymru 2018
- Anelu am Aur ('Going for Gold') – Strategaeth Addysg Bellach ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru 2013
- Cynllun Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol ColegauCymru 2014
- 'State of Play' 2014
- Arolwg Chwaraeon Addysg Bellach 2015
- ColegauCymru – Adroddiadau blynyddol / papurau briffio
- ColegauCymru – Goblygiadau ymarferol a goblygiadau polisi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r sector addysg bellach yng Nghymru 2016
- Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017
- Ymchwili Chwaraeon Cymru – Arolwg ar Oedolion Egniol / Arolwg ar Chwaraeon Ysgol

4.3 Dylai'r ymchwili yn gyntaf ganolbwyntio ar weithgarwch prosiect a gyllidwyd gan Chwaraeon Cymru rhwng 2014 a 2017 ac effaith a gwerth ychwanegol y bartneriaeth gyda ColegauCymru a Chwaraeon Colegau Cymru yn ystod y cyfnod hwn. At ddibenion cyfeirio, gellir defnyddio targedau Chwaraeon Cymru ar gyfer chwaraeon cymunedol yn y dyfodol (a restrir isod) ynghyd â'r model llwybr chwaraeon wrth ddadansoddi unrhyw newidiadau ar lefel strategol yn y colegau o ganlyniad i weithgarwch o dan y prosiect, ac wrth lunio argymhellion fel rhan o'r adolygiad.

- o 75% o bobl ifanc ac oedolion ifanc (hyd at 34 oed) (waeth beth fo'u cefndir) wedi 'gwirioni ar chwaraeon' (yn cymryd rhan mewn tair sesiwn neu fwy bob wythnos) erbyn 2026;
- o Cynnydd yng nghanran y boblogaeth sy'n gwneud gweithgarwch corfforol yn unol â'r canllawiau a argymhellwyd gan y Prif Swyddog Meddygol;
- o Cynnydd yng nghanran y boblogaeth sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn rheolaidd ac yn wythnosol (3 gwaith yr wythnos);
- o Lleihau'r bwlch yn lefelau cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol rhwng y boblogaeth gyffredinol a'r grwpiau ffocws a ddynodwyd:
- o Y rheini sy'n byw mewn tldi;
- o Menywod a merched;

- o Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- o Pobl anabl;
- o Anghydraddoldebau eraill ac/neu grwpiau a ddynodwyd mewn cymunedau lleol penodol;
- o Darparu llwybrau chwaraeon cyflawn ym mhob rhanbarth.

Llwybr Chwaraeon Chwaraeon Cymru – Y Model Pedwar Byd –

- **Y sylfeini i gyfranogi**
- **Cyfranogi er mwyn llesiant**
- **Cyfranogi er mwyn gwneud cynnydd**
- **Cyfranogi er mwyn perfformio**

5.0 Y gofynion

- 5.1 Mae disgwyl i'r cyflenwr wneud gwaith ymchwil yn adolygu effaith cyllid prosiect Chwaraeon Cymru ar y sector addysg bellach rhwng 2014 a 2017, gan lunio argymhellion allweddol a fydd yn sail i ddatblygu strategol yn y dyfodol. Dylai'r cyflenwr gyflwyno'r gwaith i ColegauCymru ar ffurf adroddiad terfynol.

Disgwylir y bydd y gwaith yn dechrau ar 9 Hydref 2017 a'r adroddiad terfynol i'w gwblhau erbyn 11 Rhagfyr 2017. Mae mwy o fanylion yn yr amserlen.

- 5.2 Dylai adroddiad terfynol y gwaith ymchwil alluogi ColegauCymru a Chwaraeon Cymru i wneud y canlynol:
- Canfod yr arferion gorau yn y sector o ran y gweithgarwch a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect
 - Creu darlun o newid ar lefel strategol, yr effaith ar ddarpariaeth a'r effaith ar gyfranogwyr
 - Dangos y buddion a'r cyfleoedd sydd wedi deillio o weithgarwch o dan y prosiect
 - Rhoi gwybod i uwch arweinwyr yn Chwaraeon Cymru, Grŵp Strategaeth Chwaraeon Colegau Cymru a bwrdd ColegauCymru ynghylch sut i ddatblygu a gosod cyfeiriad i weithgarwch a gyllidir yn y dyfodol, ynghyd â sut i gynllunio ar lefel strategol ar gyfer y sector.
- 5.3 Dylai'r cais esbonio'r fethodoleg y bydd y cyflenwr yn ei dilyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau hyn o'r gwaith ymchwil. Byddai'r fethodoleg ddisgwyliedig yn cynnwys yr elfennau canlynol fan lleiaf:
- Adolygiad llenyddiaeth a dadansoddiad o'r data perthnasol o arolygon
 - Cyfweiliadau gydag uwch-reolwyr colegau, rheolwyr prosiect a myfyrwyr mewn o leiaf 6 choleg ar yr holl lefelau cyfweld
 - Arsylwadau allweddol

Sylwadau i gloi

- 5.4 Byddwn yn croesawu'r defnydd o ymchwil ansoddol a meintiol er mwyn canfod effaith gweithgarwch a gyllidwyd gan y prosiect a'r gwerth ychwanegol i'r sector addysg bellach.
- 5.5 Noder y bydd union ffurf a chynnwys y cynllun gwaith terfynol i'w gytuno â swyddogion yn y cyfarfod gyda ColegauCymru i gychwyn y prosiect.
- 5.6 Fel rhan o'u cais, disgwylir i gyflenwyr ddatgan unrhyw berthnasau neu gysylltiadau sydd ganddynt â pherson neu bersonau sy'n aelodau arwyddocaol o staff, neu bobl sydd wedi'u hethol neu eu henwebu i fod yn rhan o'r sefydliadau a fydd yn berthnasol i gwmpas yr arolwg.
- 5.7 Mae disgwyl i'r cyflenwr gwblhau rhestr brisio.

6 Defnyddio'r casgliadau

- 6.1 Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio fel dogfen fewnol i helpu Chwaraeon Cymru, Grŵp Strategaeth Chwaraeon Colegau Cymru a ColegauCymru i greu strategaeth ar gyfer y dyfodol a rhoi cyllid prosiect i'r sector addysg bellach yng Nghymru.

7 Amserlen

- 7.1 Mae'r amserlen fel a ganlyn:

Dyddiad	Gweithgaredd
25 Awst 2017	ColegauCymru i roi briff ymchwil ysgrifenedig i sefydliadau dethol
20 Medi 2017	Cynigion i'w cyflwyno i ColegauCymru erbyn 5pm
27 Medi 2017	Rhoi gwybod i'r sefydliad llwyddiannus a chontractio
9 Hydref 2017	Y gwaith ymchwil yn dechrau
11 Rhagfyr 2017	Y gwaith ymchwil i ddod i ben a'r adolygiad i'w gyflwyno i ColegauCymru

7.1 Dylid cyflwyno cynigion drwy e-bost erbyn 5pm, ddydd Mercher 20 Medi 2017, a hynny i Rachel.Bowen@colegaucymru.ac.uk. Cysylltwch â Rob Baynham ar Robert.baynham@colegaucymru.ac.uk ag unrhyw ymholiadau. Byddai tîm y prosiect yn croesawu ymholiadau am y tendr hwn hyd at y dyddiad cau. Ni fydd gohebiaeth nac ymholiadau'n cael eu hateb yn ystod y cyfnod pan fydd penderfyniad ar y contract yn cael ei wneud.